**CYNGOR CYMUNED FFLUR YSTRAD**
**COFNODION Y CYFARFOD MISOL,**
**NOS IAU 17/03/2016 AM 7.00PM**
**LLYFRGELL NEUADD PANTYFEDWEN**

1. **Croeso a Materion Personol**
Croesawodd y Gyngh. Clare Hughes bawb i'r cyfarfod.

2. **YN BRESENNOL**
Y Cynghorydd Doug Rowbotham (Cadeirydd); Clare Hughes (Is-Gadeirydd); Y Gyng Angharad Jones; Y Gyngh. Mair Jones; Y Cyngh. Non Jones; Y Cyngh. Wil Lewis; Y Cyngh. Cymunedol a Sirol Ifan Lloyd-Davies; Y Cyngh. Gareth Owen; Y Cyngh. Alun Price-Jones.
**Swyddog Cymorth Cymunedol yr Heddlu** John Evans; Eleri Thomas (Clerc)
**Aelodau'r Cyhoedd:** Merfyn Botwood, Sonia Fletcher a Bill Messer.

3. **YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB**
Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth Y Cyngh. John Jones & Mrs Wilma Rush.

4. **MATERION HEDDLU**
Dywedodd Swyddog Cymorth Cymunedol yr Heddlu John Evans nad oedd unrhyw faterion yr heddlu arwyddocaol o fewn y gymuned i'w hadrodd at sylw'r Cyngor Cymuned.

5. **DATGANIAD O DDIDDORDEB:** Dim wedi eu datgan.

6. **COFNODION Y CYFARFOD O'R 18FED CHWEFROR, 2016**
Cytunwyd eu bod yn gofnod cywir heblaw am y canlynol:
***Cofnod: 7.1*** **Cysylltwyd â'r Gofrestrfa Tir** i sefydlu'r gost o ddarganfod perchnogaeth y darn o dir sy'n ymestyn o'r B4343 ger y bont y tu cefn i ***1-16 Heol y Bannau****,* Ystafell Wen ac ymlaen i Dolau Bach.
*Dylid ddarllen* ***1-16 Maesydderwen.***
Llofnodwyd y Cofnodion gan y Cadeirydd.

7. **MATERION YN CODI**
   **7.1** **Cerbyd Wedi ei barcio ger yr afon:** Cysylltwyd â'r Adran Gynllunio Cyngor Sir Ceredigion i sefydlu os oes caniatad i barcio cerbyd yn y lleoliad hwn am gyfnod hir (ger Ystafell Wen). Derbyniwyd ymateb gan Mr Huw Davies yn nodi ei fod wedi cysylltu â'r Cyngor Cymuned ar yr 16 Mai 2015 i ofyn am ragor o wybodaeth ynghylch y cerbyd. Mae'n darllen, "….. ymwelais â'r safle yr wythnos ddiwethaf a dod o hyd i gar glas wedi ei barcio ar yr hyn yr wyf yn tybio i fod y safle yr ydych yn cyfeirio ato yn eich llythyr. Rwyf wedi nodi y ffaith bod y tirfeddianwyr yn datgan eu bod wedi defnyddio'r tir fel rhan o'u gardd ers oddeutu 28 o flynyddoedd. Tybed a all Cynghorwyr gadarnhau'r ffaith yma oherwydd er nad oes caniatâd cynllunio o bosibl ar gyfer y defnydd o'r tir, os yw wedi bod yn rhan o'u "cwrtil" am dros 10 mlynedd, yna mae'r defnydd yn gyfreithiol ac ni allaf gymryd unrhyw orfodaeth gweithredu, hyd yn oed os byddai'r Awdurdod yn awyddus i wneud hynny".
   **PENDERFYNWYD** yn ystod cyfarfod cynt i adael y mater ar y bwrdd. Serch hynny, dywedodd y Cyng Non Jones yn ystod y cyfarfod mis Ionawr bod y car wedi ei barcio rhwng dau lwybr cyhoeddus.
   **PENDERFYNWYD** cysylltu ag Un Llais Cymru i ofyn petai car wedi ei barcio ar dir cyffredin ac o bosibl yn rhwystro llwybr cyhoeddus beth yw'r obligiadau cyfreithiol a chwrs o weithredu, y dylai'r Cyngor Cymuned gymryd. Derbyniwyd ymateb gan Un Llais Cymru parthed materion cyfreithiol mewn perthynas â thir comin a llwybrau cyhoeddus.

Prif gyfrifoldeb y Cyngor Cymuned, yw cysylltu â chyrff eraill os yw'n ystyried bod naill ai amhariad ar dir comin heb ganiatâd neu bod rhwystr yn codi ar lwybr troed cyhoeddus ac fel canlyniad yn tanseilio hawliau y cyhoedd i gael mynediad di-dor i'r cyfleuster cyhoeddus.

Awgrymodd Un Llais Cymru mai'r cam cyntaf fyddai canolbwyntio ar y mater ynghylch a oes tresmasu anghyfreithlon ar y llwybr cyhoeddus. Bydd Cyngor Sir Ceredigion â swyddog â chyfrifoldeb am y rhwydwaith llwybrau troed cyhoeddus a mynediad at holl lwybrau troed y Sir. Aeth Mr Paul Egan ULlC ymlaen i ddweud, "Byddwn yn awgrymu eich bod yn trefnu cyfarfod safle i holi barn ynghylch a yw'r cerbyd yn rhwystro'r llwybr troed at ddefnydd y cyhoedd. Os bydd y swyddog yn ystyried bod hyn yn bod gall roi cyngor ar y camau y gall y Cyngor Sir ddilyn.  Mae'r mater o lechfeddiannu ar dir comin yn ychydig fwy cymhleth a dylai hyn fod yn fater byddai'r Cyngor yn dymuno ei dilyn, byddwn yn awgrymu eich bod yn cysylltu â'r adran gynllunio a ddylai allu glustnodi Swyddog Gorfodi i gyfarfod gyda'r Cyngor i asesu'r sefyllfa cyn ystyried unrhyw gamau pellach. "
Cysylltwyd â’r Gofrestrfa Tir i ddarganfod perchnogaeth y darn o dir sy'n ymestyn o'r B4343 ger y bont y tu cefn i 1-16 Maesydderwen, Ystafell Wen ac ymlaen i Dolau Bach.  *Disgwylir datblygiadau.*

**7.2 Ysgoloriaeth y Dywysoges Saphieha Ysgol y Bont:**
Mae swm o £389.02 (swm y Gronfa, y swm blaenorol a ddyfynnwyd gan Gyngor Sir Ceredigion oedd £459.02 (£70 yn uwch) wedi ei drosglwyddo gan Gyngor Sir Ceredigion i'r Cyfrif Banc Barclays y Cyngor Cymuned Ystrad Fflur. Atgoffwyd aelodau mai gwerth cychwynnol y Gronfa oedd £100.  Bydd y Gronfa yng ngofal y Cyngor Cymuned o hyn allan a gosodir trefniadau mewn lle i gyflwyno disgybl yr ysgol â’r Wobr yn flynyddol.
Enwebwyd y Gyng Clare Hughes i ymwneud ag ymholiadau ynghylch agor cyfrif arbennig i fuddsoddi’r arian.  Dywedwyd bod Plac ar gael yn yr Ysgol eisoes. Bydd yn ofynnol i geisio gwybodaeth parthed dyddiad ac amser y Seremoni Wobrwyo yr Ysgol ac i sicrhau presenoldeb cynrychiolydd y Cyngor Cymuned.
**Anfoneb a Dderbyniwyd gan yr Ysgol Bont yn ymwneud â'r Ysgoloriaeth Dywysoges Saphieha er sylw Mr Chris Macey CSC**:
**Manylion yr Anfoneb** "Plac Wedi ei Ysgythru: £30; Ysgoloriaeth 2012 £10; Ysgoloriaeth 2013 £10; Ysgoloriaeth 2014 £10; Ysgoloriaeth 2015 £10.  Yn unol ag amodau’r Ysgoloriaeth cyflwynir £10 i ddisgybl ym mlwyddyn 6 Ysgol y Bont a'r Plac i’w chadw am Flwyddyn."
CYFANSWM a wariwyd gan yr ysgol £70.

**7.3 Prosiect Gors-y-Ger Cyf:** Cylchlythyr Mawrth 2016 a dderbyniwyd gan Mr Bill Messer: Atodiad 1.  Derbyniwyd diweddariad ar lafar gan Mr Messer parthed y prosiect.

**7.4 Parcio Cerbydau ger Fynedfa Neuadd Pantyfedwen:**  Y mae’r sefyllfa’n cael ei monitereiddio.

**7.5 Cinio Blynyddol:** Bydd y Cyngh. Doug Rowbotham yn gwneud ymholiadau parthed y Ddewislen dan law’r Teifi Inn Ffair Rhos. Cynhelir y ginio yn ystod mis Mai.

**7.6 Cynllun Llywodraeth Cymru** - Gwefannau Cynghorau Tref a

Chymuned: **PENDERFYNWYD** darganfod a ellid defnyddio y £500 grant i ddarparu dolen gyswllt i Gyngor Cymuned Ystrad Fflur o safle ar y we'r Cyngor Sir Ceredigion. *Disgwylir datblygiadau.*

**7.7** **Torri Gwair o fewn y Pentref: PENDERFYNWYD** ceisio tendrau, bydd y Fanyleb Swydd yn debyg i'r flwyddyn flaenorol. Dyddiad cau: 21 Ebrill, 2016.

**7.8** **Dywedwyd bod anghydfod wedi codi** ynghylch perchnogaeth y Glas. Mae'r Glas wedi ei gynnwys o fewn y Gofrestr Asedau Cyngor Cymuned Ystrad Fflur ers blynyddoedd bellach - "Tir Cwmin (Y Glas) £1.00)".

**8. GOHEBIAETH**

**8.1** **Gohebiaeth oddi wrth y Cynghorydd John Jones** yn datgan ei fod yn fwriad ganddo i ymddiswyddo fel cynrychiolydd ar Fwrdd Llywodraethwyr Ysgol y Bont ac oherwydd hynny bydd angen enwebu cynrychiolydd ar ran y Cyngor Cymuned. **PENDERFYNWYD** clustnodi sylw pellach i'r mater.

**8.2** **Llythyr oddi wrth Mr Martin Weetch** ynghylch cyflwr dirywiol y bont-droed fetel sy'n croesi'r Afon Teifi ac wedi ei lleoli wrth gefn Dolau Bach ac a gyfeiriwyd ati fel y "Bont Werdd". Mae ychydig o flynyddoedd wedi mynd heibio ers iddo ef a gwirfoddolwyr beintio'r Bont Werdd (y Cyngor Sir Ceredigion wedi darparu'r paent). Ers hynny, mae ei chyflwr wedi dirywio'n aruthrol a thyllau'n amlwg ar y gwaith metel wrth gefn a'r rhannau sydd wedi eu peintio; mae cyflwr y bont bellach wedi mynd tu hwnt i unrhyw ymdrechion i'w hailbeintio. Gofynnwyd tybed a allai'r Cyngor Cymuned gyfeirio ei ymholiad at yr unigolion sy'n gyfrifol am y bont gyda'r bwriad o'i hatgyweirio. **PENDERFYNWYD** cyfeirio'r mater at sylw Cyngor Sir Ceredigion. Dywedwyd bod y Cyngor Sir yn cyflogi "Swyddog Pontydd".

**8.3** **Cyfarfodydd Ardal Un Llais Cymru:** Enwebwyd y Cadeirydd Y Cynghorydd Doug Rowbotham a'r Gynghorydd Clare Hughes i gynrychioli'r Cyngor Cymuned mewn Cyfarfodydd y dyfodol.

**8.4** **Cyfreithwyr Arnold Davies Vincent Evans parthed Y Ganolfan Pontrhydfendigaid**: Y mae'r ffin rhwng y Ganolfan a'r Pafiliwn ym Mhontrhydfendigaid wedi ei chytuno bellach gan yr Ymddiriedolwyr Rheoli priodol. Yn amgaeedig, y Weithred Datganiad Ffin a'r Weithred Cywiro'r Hawl Tramwy, yn ymwneud â'r ddau eiddo. Cymeradwywyd y Gweithredoedd eisoes gan Ymddiriedolwyr Rheoli'r Ganolfan. Mae'r Gweithredoedd hefyd wedi eu cymeradwyo gan y Banc National Westminster plc yn rhinwedd ei swydd fel Ymddiriedolwr â Gwarchodaeth am y Pafiliwn. Gan fod Cyngor Cymuned Ystrad Fflur yn meddu ar statws Ymddiriedolwr â Gwarchodaeth Y Ganolfan gofynnwyd tybed a allai'r Cyngh. Doug Rowbotham a'r Cyngh. Ifan Lloyd-Davies gymeradwyo'r Gweithredoedd ym mhresenoldeb tyst annibynnol. **PENDERFYNWYD** gwneud hynny. (**Tyst:** Y Cyng Non Jones).

**8.5** **Prosiect Gwiwerod Coch Canolbarth Cymru -** Digwyddiad Galw Heibio yn y Brunant Arms, Caio ar ddydd Sul 20 Mawrth: er gwybodaeth.

**8.6** **Gohebiaeth Eraill: Er gwybodaeth yn unig.**

**9. CYLLID**

**9.1** **Cyflog y Clerc** Chwefror a Mawrth 2016 £157.10 x 2; Cyllid a Thollau EM £36.56 x2.

**9.2** **Ceisiadau a dderbyniwyd yn ystod y flwyddyn** ariannol i gefnogi achosion teilwng, sef: Ambiwlans Awyr Cymru; Canolfan Therapi Plant Bobath Cymru; CFfI Ceredigion; Clwb y Bont ar gyfer yr Henoed (Te Prynhawn); Canolfan Cyngor ar Bopeth; Eisteddfod Genedlaethol Cymru Mynwy a'r Cylch 2016; Eisteddfod Gerddorol Ryngwladol Llangollen; Gofal mewn Galar *Cruse*; Cymorth Canser MacMillan; Marie Curie Gofal Canser; Papur Bro'r *Barcud*; Sefydliad Aren Cymru; Shelter; Urdd Ceredigion; Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd 2016; Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig; Ysgol Feithrin y Bont.
**PENDERFYNWYD** cyfrannu £50 yn unigol ar gyfer y canlynol:
1. Ambiwlans Awyr Cymru;
2. Ceredigion; Clwb y Bont ar gyfer yr Henoed ((Te Prynhawn);
3. Papur Bro'r Barcud; &'r
4. Ysgol Feithrin y Bont.
Mae Cyfraniadau eisoes wedi eu gwneud yn ystod y flwyddyn ee Ffair y Ganolfan £150; Cais Cynllunio Coed Dolgoed £166; Plethdorch Sul y Cofio £25.00.

**9.3** **Ffôn & Band Llydan** (Clerc) (Hydref; Tachwedd, Rhagfyr, Ionawr) £59.97; £11.99 (TAW) £71.96

**9.4** **Ffôn & Band Llydan** (Clerc) (Chwefror, Mawrth) & stampiau £44.21

**9.5** **Stampiau/Papur** (2015-16) £47.88 (£0.67 TAW)

**9.6** **Mrs Enid Hughes:** Pwyllgor Neuadd Pantyfedwen Archwiliad Ariannol Mewnol £70.00

**9.7** **Y Gofrestrfa Tir** £7.00

**9.8** **Yswiriant y Cyngor Cymuned:** Derbyniwyd amcanbris gan y Darparwyr Yswiriant Zurich Municipal. Yswiriant y Cyngor Cymuned i'w adnewyddu ar y 1af Mehefin 2016. Cytunodd Y Cynghorydd Doug Rowbotham i glustnodi sylw pellach i'r mater i'w drafod ymhellach yn ystod y cyfarfod nesaf.

**9.9** **Ffair y Ganolfan** £150.00

**9.10** **Ad-daliad Taw 2014-15 £228.51**

**9.11** **Praesept 2014-15 £7.070**

**10. CYNLLUNIO**

**10.1** **Pwyllgor Rheoli Datblygu:** Agenda a Chofnodion Cyfarfod diweddar: er gwybodaeth.

**10.2** **Dywedwyd bod carafán sefydlog** wedi'i lleoli ar sail barhaol ym Mhenrhiw, Ffair Rhos. **PENDERFYNWYD** cysylltu â'r Adran Gynllunio, Cyngor Sir Ceredigion i sefydlu petai'n cael ei ganiatáu i wneud hynny. Derbyniwyd ymateb gan Mr Huw Williams, Pennaeth Gwasanaethau Ffordd o Fyw ar y 13/10/2015, "*Yr wyf wedi dadansoddi'r honiad bod y rheolau wedi eu torri ac mae wedi ei rhoddi yn Nosbarth Blaenoriaeth 2 i ddechrau. Bydd swyddog o'r awdurdod yn ymweld â'r safle yn ystod yr 10 diwrnod nesaf i wneud asesiad cychwynnol a yw'r rheolau cynllunio wedi eu torri ai peidio. Cewch wybod ynghylch yr asesiad cychwynnol yn y 15 diwrnod nesaf ar ôl yr ymweliad safle.* Ar y 18/11/2015 Ysgrifennodd Mr Huw Davies drwy e-bost. "... Rwyf wedi ysgrifennu at berchnogion yn gofyn sut y maent yn cyfiawnhau ei fod wedi ei leoli yno ond cyn belled nid oes ymateb wedi ei dderbyn. Yn sicr nid oes gofnod o ganiatâd wedi ei osod ar gyfer safle carafannau ar gael a tybed a oes gennych fwy o wybodaeth am y mater hwn. " Dim datblygiadau pellach yn ystod y cyfarfod hwn.

**Cais Cynllunio: A160168:** Cais: Cadw'r defnydd o garafan: Lleoliad: Penrhiw, Ffair Rhos, Ystrad Meurig. **Sylwadau Cyngor Cymuned:** Dim Gwrthwynebiad ond mae'r Cyngor Cymuned ond yn cefnogi cadw'r defnydd o un garafán.

**10.3** **Cais Cynllunio Ynghylch Nant-yr-Helyg**: **PENDERFYNWYD** gofyn i Gyngor Sir Ceredigion petai'r cais yn cydymffurfio ag amodau Adran 106 h.y. newid defnydd amaethyddol i fusnes o fewn 2 flynedd. Derbyniwyd ymateb gan Mr Huw Davies, CSC, yn datgan, "... Tybed pa Adran 106 yr ydych yn cyfeirio ato? Rwyf wedi edrych ar gofnodion cynllunio ac nid yw'n ymddangos bod Adran 106 ar yr eiddo. Yn wir yr unig caniatâd cynllunio allaf ddod o hyd iddo yw un sy'n ymestyn nôl i 2011 pan dynwyd y meddiannaeth amaethyddol. Allech chi fy ngoleuo ar y pwynt hwn? "Cytunodd y Cyng Ifan Lloyd-Davies i drafod y mater gyda Mr Huw Davies. Dim Datblygiadau yn ystod y cyfarfod hwn.

## 11. UNRHYW FATER ARALL

**11.1** **Yn ystod y Mis hwn mae cronfa werdd** cymunedol newydd wedi ei lawnsio gan Gyngor Sir Ceredigion i helpu cymunedau lleol delio â'u gwastraff yn lleol mewn modd cynaliadwy neu wella ardaloedd gwyrdd o fewn y gymuned. Yr uchafswm y gall cymunedau ymgeisio amdano yw £500, a mae'r cronfa ar gael i gymunedau yng Ngheredigion sydd a diddordeb mewn creu cymdogaeth well, dysgu sgiliau newydd a bwy a gweithio mewn ffordd mwy wyrdd. Rheolir y cronfa gan Gyngor Sir Ceredigion fel rhan o'r Ymgyrch Caru Ceredigion, y gobaith yw y bydd cymunedau yn cymryd cyfrifoldeb i fod yn fwy cynaliadwy, a creu gweithgareddau positif o budd i nhw a'r amgylchedd.
**PENDERFYNWYD** cyflwyno cais.

**11.2** **Codi Sbwriel yn y Cyffiniau:** i drefnu ddwywaith y flwyddyn ac i gynnwys yr Ysgol. Adroddwyd bod sbwriel yn amlwg ger y Banc Poteli.

**11.3** **Proses Ymgynghori-Adolygiad o Gludiant ôl 16 Rhwng y Carterf a'r Ysgol/Coleg a'r Ddarpariaeth Seddi Gwag- Cyngor SC**
**PENDERFYNWYD** mynegi gwrthwynebiad i gynnig y Cyngor Sir i godi tâl o £390 y flwyddyn ar gyfer pobl ieuainc 16+ er mwyn teithio ar y bws ysgol. Roedd aelodau o'r farn y byddai disgyblion cefn-gwlad o dan anfantais enfawr a hefyd y rhai hynny o gefndiroedd teuluol incwm-isel. Roedd Cynghorwyr yn gytun y dylid annog pobl ieuainc i barhau â'u haddysg mewn safle o'u dewis.

**11.4** **Palmant gerllaw Penrhiw, Ffair Rhos** - angen sylw i sicrhau diogelwch y cyhoedd. I hysbysu'r Cyngor Sir.

**11.5** **Tyllau'n weladwy ar yr heol ger Bron Mwyn** - i adrodd at sylw CSC.

**11.6** **Mae tyllau hefyd yn amlwg** ar y ffordd gyferbyn â'r fynedfa i'r Llew Du: i adrodd at sylw CSC.

**11.7** **PENDERFYNWYD** gofyn i'r Cyngor Sir tybed a fyddai'n bosibl i ddarparu Croesfan Sebra yn ymestyn o fynedfa'r Neuadd Pantyfedwen i'r garej. Nodwyd bod Croesfan Sebra a Chroesfan Pelican yn dra wahanol i'w gilydd.
**Nid oes unrhyw farciau wedi'u lleoli gan GSC** mewn perthynas â chyrbau isel a osodwyd yn ddiweddar pan yn ymwneud â gwelliannau parthed y palmant ger Neuadd Pantyfedwen. Roedd un o'r cyrbau ar ochr y Neuadd a'r llall gyferbyn y tu allan i Lys Meurig. Doedd dim marciau yn amlwg er mwyn tynnu sylw i'r groesfan newydd.
Mae'r mater hwn wedi ei adrodd i Gyngor Sir Ceredigion. Holwyd a oedd angen arwyddion i rybuddio'r cyhoedd o gyrbau isel.

**Daeth y cyfarfod i ben am 8:45pm.**
**12. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF**
**Dydd Iau 21ain o Ebrill, 2016 am 7.00pm**
**================================================== =====(llofnod/dyddiad)**